Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Feithrinfa Ddydd Cam Cynta
# Y Cam Cynta
# Peniel
# Caerfyrddin
# SA32 7AB

## Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2014

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

**© Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 11/07/2014**

## Cyd-destun

Meithrinfa breifat yw Meithrinfa Ddydd Cam Cynta. Mae'n rhan o ddarpariaeth Mudiad Meithrin a Phartneriaeth Plant a Phobl Ifanc Caerfyrddin. Lleolir y Feithrinfa ym mhentref Peniel ger Caerfyrddin. Agorwyd y lleoliad yn Ionawr 2006 ac mae wedi ei chofrestru gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ar gyfer gofalu am uchafswm o 29 o blant. Daw'r plant o bentref Peniel ei hun yn ogystal ag ardal ehangach. Cymraeg yw prif iaith lleiafrif o'r plant gyda'r gweddill yn dod o aelwydydd di-Gymraeg.

Mae'r lleoliad yn darparu pum sesiwn fore a phum sesiwn brynhawn yr wythnos ar gyfer babanod newydd eu geni hyd at blant chwe blwydd oed. Mae'r lleoliad ar agor o wyth o'r gloch y bore hyd chwech o'r gloch y nos er bod y nifer y sesiynau a fynychir gan unigolion yn amrywio yn ôl dewis y rhieni. Mae tri o blant tair blwydd oed yn mynychu'r lleoliad ac, yn ystod yr arolygiad, roedd un o'r rhain wedi'i ariannu gan y Bartneriaeth.

Caiff y lleoliad ei staffio gan arweinydd a chymhorthydd dysgu. Mae ganddynt oll gymwysterau priodol sy'n gysylltiedig ag addysg y blynyddoedd cynnar. Mae cyfanswm o dair ar ddeg o ymarferwyr wedi eu cyflogi i weithio yn yr unedau eraill o fewn y feithrinfa. Mae bron pob plentyn yn trosglwyddo i ysgolion cynradd lleol lle maent yn parhau i dderbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg.

Cafodd y lleoliad ei arolygu gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ym mis Medi 2013 a chan Estyn yn Ebrill 2008.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- gan ymarferwyr ymwybyddiaeth drylwyr o anghenion pob plentyn;
- ymarferwyr yn cynllunio ystod eang o brofiadau dysgu cyffrous a chynhwysfawr;
- bron pob plentyn yn elwa o'r cyfleoedd da sy'n cael eu darparu er mwyn datblygu annibyniaeth;
- sylw a phwyslais amlwg yn cael ei osod ar greu amgylchedd diogel sy'n annog y plant i gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth; ac mae
- ymarferwyr yn modelu'r iaith Gymraeg yn dda iawn ac mae hyn yn datblygu medrau llafar y plant yn effeithiol.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd bod:

- gan yr arweinydd weledigaeth gadarn a disgwyliadau uchel sy'n arwain at godi safonau;
- tîm o ymarferwyr ymroddgar yn cyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol o ddydd i ddydd;
- gan yr arweinydd wybodaeth drylwyr am berfformiad y lleoliad sy'n arwain at osod blaenoriaethau clir ar gyfer gwelliant; ac
- mae ffocws cryf ar ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd y plant.

## Argymhellion

A1 Sicrhau cyfleoedd cyson i blant ddatblygu eu medrau datrys problemau, yn arbennig y rhai mwyaf galluog

A2 Datblygu gweithdrefnau cymedroli a safoni gwaith plant

A3 Datblygu gweithdrefnau hunanarfarnu ymhellach

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Dd/B |
|---|---|

**Safonau: Dd/B**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

**Lles: Dd/B**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn cynllunio ystod eang o brofiadau dysgu cyffrous a chynhwysfawr ar gyfer y plant. Mae'r gweithgareddau dyddiol yn sicrhau bod y plant yn cael profiadau symbylus o fewn y chwe maes dysgu sy'n eu galluogi i wneud cynnydd da. Mae cynlluniau manwl yr ymarferwyr yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth a dealltwriaeth flaenorol y plant.

Caiff y plant gyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd da er mwyn datblygu annibyniaeth bron pob plentyn yn ogystal â gweithgareddau sy'n cael eu harwain gan oedolion. Mae hyn yn arwain at safonau da. Rhoddir llawer o gyfleoedd buddiol i blant wneud penderfyniadau dros eu dysgu eu hunain. Cânt eu hannog i wneud dewisiadau ac mae hyn yn datblygu eu medrau meddwl yn llwyddiannus mewn ystod dda o weithgareddau megis coginio, chwarae rôl a garddio. Mae'r lleoliad yn datblygu cyfleoedd priodol i blant ddatrys problemau ond nid yw'r gweithgareddau hyn yn herio'n plant mwy abl yn ddigon cyson.

Gwneir defnydd ardderchog o'r Gymraeg gan yr ymarferwyr. Maent yn defnyddio model iaith raenus ac mae hyn yn datblygu medrau siarad a gwrando'r plant yn dda iawn. Caiff y dimensiwn Cymreig le amlwg yng nghwricwlwm a gweithgareddau'r lleoliad. Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd cyson i alluogi'r plant i gymryd rhan yng ngweithgareddau'r Urdd a dathlu Santes Dwynwen a Dydd Gŵyl Dewi. Mae parchu aml-ddiwylliannau, hybu agweddau gwrth hiliaeth a datblygu tegwch a chyfle cyfartal yn hefyd yn elfennau cryf o ddiwylliant y lleoliad. Mae'r gweithgareddau hyn yn helpu'r plant i ddatblygu dealltwriaeth dda o'r byd ehangach a datblygu eu hymwybyddiaeth o ddinasyddiaeth fyd eang o fewn cyd-destun Cymreig.

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd buddiol o ymweliadau i wella profiadau dysgu plant yn llwyddiannus. Maent yn cael cyfle i fynd i'r parc lleol yn ogystal ag ymweld â fferm gyfagos er mwyn arsylwi ar fyd natur trwy deimlo, arogli a chymharu nodweddion

blodau a thrychfilod. Serch hynny, nid yw'r lleoliad yn gwneud digon o ddefnydd o ymwelwyr i gyfoethogi profiadau dysgu'r plant.

Mae cyfleoedd da ar gael i bob plentyn i ailgylchu papur, plastig a bwyd. Gwneir defnydd ymestynnol o erddi'r lleoliad i ddarparu cyfleoedd cyson i blant ddysgu am sut mae pethau yn tyfu a sut i ofalu am yr amgylchedd yn yr ardal allanol.

## Addysgu: Da

Mae ystod ac ansawdd yr addysgu yn effeithiol. Mae gan yr ymarferwyr wybodaeth bynciol gyfredol a chadarn. Maent yn deall gofynion y Cyfnod Sylfaen yn dda ac yn cynllunio gweithgareddau yn ofalus, er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn derbyn profiadau sy'n eu herio i wella.

Llwydda'r ymarferwyr i sicrhau awyrgylch dysgu gefnogol iawn o fewn yr ardaloedd dysgu gwahanol. Mae amcanion y gweithgareddau yn glir ac yn briodol i oed a gallu bron pob un o'r plant. Mae hyn yn datblygu hyder y plant i ymateb yn bositif i'r tasgau a osodir ar eu cyfer. Mae gan ymarferwyr ymwybyddiaeth drylwyr o anghenion pob plentyn. Trwy ddefnydd cywrain o holi heriol ac anogaeth gynnil, mae ymarferwyr yn annog y plant i weithio'n annibynnol ac i wneud penderfyniadau am eu dysgu yn llwyddiannus. Mae'r ymarferwyr yn modelu'r iaith Gymraeg yn dda iawn ac mae hyn yn datblygu medrau llafar y plant yn effeithiol.

Mae'r holl staff yn defnyddio elfennau effeithiol o asesu ar gyfer dysgu yn ystod y gweithgareddau. Maent yn aml yn cynnig adborth llafar adeiladol ac yn esbonio'n glir beth sydd angen i blant ei wneud i wella eu gwaith. Mae gweithdrefnau'r lleoliad ar gyfer asesu ac olrhain cynnydd y plant yn briodol. Yn ddiweddar, mae'r lleoliad wedi diwygio eu gweithdrefnau asesu er mwyn asesu pob plentyn ar fynediad. Mae'r staff yn safoni gwaith unigol y plant yn anffurfiol ac mae cysondeb mewn lefelu gwaith plant yn datblygu ar draws y lleoliad. Fodd bynnag nid yw trefniadau ar gyfer cymedroli yn ddigon trylwyr ac nid ydynt yn cynnwys cydweithio gydag ymarferwyr o leoliadau eraill.

Mae rhieni yn derbyn adroddiad manwl am gynnydd a chyflawniadau eu plant yn yr holl feysydd dysgu pan fyddant yn gadael. Mae staff ar gael i siarad â rhieni neu ofalwyr i drafod cynnydd eu plant cyn ac ar ôl y sesiynau.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r lleoliad yn gymuned hapus sydd â threfniadau effeithiol ar waith ar gyfer hyrwyddo iechyd a lles plant. Mae'r ymarferwyr yn gwneud yn siŵr bod yr amgylchedd yn gynnes a chroesawgar a bod anghenion pob unigolyn yn cael eu diwallu.

Mae'r lleoliad yn cynllunio'n fanwl er mwyn sicrhau cyfleoedd cyson ar gyfer gweithgareddau ymarfer corff. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad moesol, cymdeithasol, ysbrydol a diwylliannol y plant wedi ei chynllunio'n bwrpasol. Rhoddir pwyslais cyson ar ddatblygu gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch. Mae hyn yn helpu'r plant i wahaniaethu rhwng ymddygiad da a drwg, ac yn cefnogi eu hymwybyddiaeth o fod yn ddinasyddion gofalgar yn llwyddiannus iawn.

Datblyga staff y lleoliad fedrau annibynnol a chymdeithasol y plant yn effeithiol yn ystod y cyfnod byrbrydau ac amser cinio. Mae'r ymarferwyr yn annog y plant i osod y bwrdd ac i gymryd cyfrifoldeb wrth glirio a thacluso.

Mae gan y lleoliad brosesau cadarn er mwyn cwrdd ag anghenion dysgu ychwanegol y plant. Trwy gydweithio'n agos gydag asiantaethau allanol arbenigol, mae'r ymarferwyr yn ymateb yn gyflym i anghenion penodol unigolion. Er enghraifft, mae ychydig o'r ymarferwyr wedi eu cymhwyso i ddefnyddio iaith arwyddo er mwyn sicrhau mynediad cyfartal i'r cwricwlwm i blant sydd ag anawsterau clyw. Mae'r lleoliad yn cychwyn defnyddio strategaeth bwrpasol ar gyfer adnabod a chwrdd ag anghenion plant mwy abl a thalentog.

Mae'r arweinydd wedi datblygu perthynas agos rhwng y lleoliad ac ysgolion cynradd yr ardal sy'n sicrhau trosglwyddo llyfn pan fydd y plant yn mynychu dosbarth derbyn. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gosod sylw a phwyslais amlwg ar greu amgylchedd diogel sy'n annog y plant i gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth. Fe welir hyn yn yr ethos cynhwysol, clos y lleoliad sydd yn sicrhau bod pob plentyn yn cael ei drin yn gyfartal. O ganlyniad, mae gan bob plentyn fynediad llawn i'r cwricwlwm a pherthynas agos gyda'u cyfoedion a'r ymarferwyr.

Mae gan bob ymarferwr gymwysterau priodol i gwrdd â gofynion y Cyfnod Sylfaen. Maent yn gwneud defnydd effeithiol o gyflenwad helaeth o adnoddau symbylus sy'n cwrdd ag anghenion bron pob plentyn. Gwneir defnydd cyson a phwrpasol o'r ardal tu allan er mwyn datblygu medrau llythrennedd a rhifedd y plant. Mae'r ardal hon yn rhan annatod o'r ddarpariaeth ac yn gryfder yn y lleoliad. Gwna'r ymarferwyr ddefnydd dychmygus o'r ardal hon hefyd er mwyn datblygu medrau corfforol ac ymchwilio'r plant. Er enghraifft, mae'r plant yn plannu ffrwythau a llysiau mewn rhandiroedd pwrpasol ac yn arsylwi arnynt yn tyfu.

Mae'r ymarferwyr yn darparu amgylchfyd ysgogol iawn ac yn creu arddangosfeydd sydd yn dangos parch at waith y plant. Gwneir defnydd effeithiol o bob ystafell i greu amgylchedd dysgu lliwgar a deniadol gydag ardaloedd pwrpasol sy'n tanio chwilfrydedd naturiol y plant tuag at ddysgu. Cedwir yr adeilad a safle'r lleoliad yn lan a thaclus.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan yr arweinydd weledigaeth gadarn i ddatblygu plant y lleoliad i fod yn gyfathrebwyr hyderus a rhugl yn y Gymraeg. Mae ganddi ddisgwyliadau uchel o'i staff a'r hyn sydd angen ei wneud i sicrhau safonau lles a safonau cyflawniad uchel ar gyfer y plant. Arweinia'r tîm o staff ymroddgar yn effeithiol gan osod ffocws clir ar ethos gofalgar a chroesawus lle mae plant yn hapus ac yn awyddus i ddysgu. Mae'r

arweinydd yn sicrhau bod pob ymarferwr yn cyflawni eu gwaith o addysgu yn effeithiol, er enghraifft, wrth ddatblygu medrau ar draws y cwricwlwm. Mae’r dirprwy arweinydd yn cefnogi gwaith yr arweinydd yn effeithiol yn enwedig wrth fentora staff newydd a monitro cynllunio'r ymarferwyr eraill. Mae ymarferwyr yn rhannu gwerthoedd a disgwyliadau cytûn yn llwyddiannus. Maent yn cyflawni eu dyletswyddau’n gydwybodol o ddydd i ddydd.

Mae’r arweinydd, sydd hefyd yn berchennog ar y feithrinfa, yn wybodus iawn am berfformiad y lleoliad ac yn ymwybodol o gryfderau yn ogystal â llawer o’r meysydd sydd angen eu datblygu. Mae’r arweinydd yn deall ei rôl a’i chyfrifoldebau yn glir ac mae’n sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau priodol ar gyfer cynnal y lleoliad yn effeithiol ac yn arwain at godi safonau. Serch hyn, nid yw cyfrifoldebau wedi eu diffinio’n ddigon clir fel bod arweinyddiaeth yn cael ei dosbarthu’n effeithiol wrth gynllunio a gweithredu ar gyfer gwelliant.

Mae’r lleoliad yn croesawu mentrau addysgol lleol a chenedlaethol ac mae’n ymateb yn frwdfrydig i gyfleoedd i ddatblygu a gwella ei darpariaeth yn unol â hynny. Caiff strategaethau asesu ar gyfer dysgu eu gweithredu’n briodol ac mae’r lleoliad yn talu sylw manwl i ddatblygu medrau rhifedd a llythrennedd. Yn ogystal, mae’r lleoliad yn sicrhau bod plant yn dysgu am fwyta ac yfed yn iach. Mae’r blaenoriaethau hyn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar ddarpariaeth yn ogystal â lles a safonau’r plant.

Mae gweithdrefnau ar gyfer gwerthuso gwaith ymarferwyr yn flynyddol yn effeithiol ac yn arwain at hyfforddiant pwrpasol sy’n diwallu anghenion datblygu unigolion a’r lleoliad.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr arweinydd wybodaeth drylwyr am berfformiad y lleoliad. Mae ganddi ddealltwriaeth gadarn o’r broses hunanarfarnu ac mae ansawdd y cynllunio strategol yn sicrhau bod yr holl ymarferwyr yn talu sylw cadarn i wella’r ddarpariaeth. Mae’r arweinydd yn rhoi ystyriaeth fanwl i weithgareddau monitro ac mae’r holl ymarferwyr yn ymdrechu’n barhaus i wella ar berfformiad blaenorol. Mae’r lleoliad wedi ymateb yn dda i argymhellion yr arolygiad blaenorol.

Arweiniodd y broses hunanarfarnu at lunio adroddiad cynhwysfawr a drafodwyd gyda swyddog yr awdurdod lleol ac ymarferwyr. Mae’r adroddiad hwn yn dangos bod yr arweinydd yn adnabod beth mae’r lleoliad yn ei wneud yn dda ac mae’n sail gadarn ar gyfer blaenoriaethu agweddau priodol ar gyfer gwelliant. Mae ymarferwyr yn cwrdd yn rheolaidd er mwyn trafod agweddau penodol ar berfformiad y lleoliad ac mae eu rôl wrth fonitro a hunanarfarnu yn datblygu’n briodol. Gwna’r ymarferwyr ddefnydd effeithiol o amrediad o ffynonellau i arfarnu perfformiad y lleoliad, gan gynnwys arsylwi ar sesiynau, craffu ar waith plant a chynnal arfarniadau o agweddau ar y meysydd dysgu.

Mae’r cyswllt rhwng yr hunan arfarniad a thargedau’r cynllun datblygu yn glir. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth, yn arbennig o ran cynllunio ac asesu. Fodd bynnag, nid yw effaith y deilliannau ar safonau yn ddigon amlwg. O ganlyniad, mae’r camau gweithredu ar wella’r ddarpariaeth yn dueddol o gael mwy o sylw na llwyddiant y plant.

Mae'r lleoliad yn cydweithio'n agos gyda'r Mudiad Meithrin a'r awdurdod lleol i rannu arferion da. Gwneir defnydd buddiol o awgrymiadau ar gyfer mynychu cyrsiau a cheir ymateb addas i'r targedau a osodir gan yr athrawes ymgynghorol. O ganlyniad, mae plant y lleoliad yn elwa o'r hyfforddiant mae'r staff yn ei dderbyn. Er enghraifft, mae cwrs ar ddarparu mynediad cyfartal i'r cwricwlwm wedi arwain at godi safonau llythrennedd y plant.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan y lleoliad ystod lwyddiannus o bartneriaethau strategol sy'n cyfrannu at ymestyn y ddarpariaeth ac at godi safonau'r plant.

Mae'r lleoliad yn gweithio'n agos iawn gyda rhieni a gofalwyr er mwyn datblygu llythrennedd y plant ac i hybu bwyta ac yfed yn iach. Mae'r rhieni hefyd yn cyfrannu'n effeithiol at waith y lleoliad drwy weithgareddau cymdeithasol i godi arian.

Mae perthynas fuddiol iawn yn bodoli rhwng y lleoliad ac athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol. Mae'r bartneriaeth hon yn cynnig arweiniad ar gyfer datblygu a chefnogi medrau ymarferwyr er mwyn codi safonau plant ymhellach. Yn ogystal, mae'n sicrhau cyngor defnyddiol sydd yn cael effaith gadarnhaol ar drefniadau arweinyddiaeth y lleoliad.

Mae'r bartneriaeth gyda'r ysgol gynradd leol yn fuddiol, ac o ganlyniad, mae'r plant yn gyfarwydd iawn â gweithdrefnau ysgol cyn cychwyn mewn dosbarth derbyn. Mae'r bartneriaeth hon yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles y plant ac, erbyn i'r plant adael y lleoliad, maent wedi'u paratoi'n dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg.

Mae'r lleoliad yn chwarae rhan flaenllaw o fewn y gymuned leol. Mae plant yn ymweld yn gyson â gwahanol fannau o amgylch y pentref. Mae hyn yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at gyfoethogi eu profiadau dysgu a'u hymwybyddiaeth o'u hardal leol.

Mae gan y lleoliad drefniadau priodol er mwyn cydweithio gydag asiantaethau arbenigol pan fo angen cymorth ychwanegol ar blant. Rhoddir adborth llafar i rieni yn ddyddiol ynglŷn â datblygiad eu plant a gwneir defnydd priodol o hysbysfyrddau yn y fynedfa. Mae hyn yn sicrhau bod y rhieni yn ymwybodol o weithgarwch y lleoliad.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r arweinydd yn rheoli'r holl adnoddau yn effeithlon trwy sicrhau bod gan y lleoliad lefel priodol o staff â chymwysterau addas i addysgu'r cwricwlwm yn effeithiol. Gwneir defnydd da iawn o fedrau unigol yr ymarferwyr ac adnoddau i ddiwallu anghenion bron pob plentyn.

Mae trefniadau rheoli perfformiad yn adnabod anghenion yr ymarferwyr ac mae cysylltiad agos rhwng eu targedau nhw a blaenoriaethau'r ysgol. Mae'r lleoliad yn trefnu ystod briodol o hyfforddiant addas. Mae hyn yn sicrhau bod gan yr holl ymarferwyr wybodaeth gyfoes am ddatblygiadau diweddar y Cyfnod Sylfaen wrth iddynt barhau i adeiladu ar eu medrau. Caiff effaith yr hyfforddiant ar gyflawniad

plant ei gwerthuso’n fanwl. Mae gan ymarferwyr ddisgrifiad swydd, fodd bynnag, nid yw’n talu sylw ddigon manwl i ddyletswyddau a chyfrifoldebau unigolion.

Mae’r arweinydd yn dyrannu cyllid yn briodol i flaenoriaethau'r lleoliad. Mae’n gwerthuso gwariant yn ofalus er mwyn ystyried yr effaith ar safonau a lles plant.

O ystyried ansawdd yr addysgu, gofal a chyfarwyddyd, mae’r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Mr Dyfrig Wyn Ellis | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Lywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |